



Mae gennym ymrwymiad i ddarparu gwerth parhaol i bobl Cymru, cyfoethogi ei hadnoddau naturiol a chreu gwerth sylweddol tu hwnt i elw ariannol.

Rydym yn fusnes a gaiff ei yrru gan werthoedd sy'n buddsoddi yn a rheoli rhai o asedau pwysicaf y Deyrnas Unedig, gan sicrhau y cânt eu gweithio a'u datblygu mewn modd cynaliadwy a'u mwynhau i sicrhau'r gwerth gorau dros yr hirdymor.

Mae set gref o werthoedd yn ganolog i Ystâd y Goron: masnacheiddiwrch, uniondeb a stiwardiaeth. Rydym yn credu ynddynt, rydym yn falch ohonynt a chawn ein parchu amdanynt gan y bobl y gweithiwn gyda nhw ac yn y gymuned ehangach.

Mae ein gweithgareddau'n cwmpasu diddordebau ynni, gwledig, arfordirol a manwerthu yng Nghymru, ac mae'r adroddiad yma'n sôn am rai o'n llwyddiannau a chynnydd yn 2014/15.

Y ffordd y gweithiwn

Mae ein dull gweithredu yn un cydweithiol, gan gydweithredu gyda phartneriaid sydd mor angerddol â ninnau am sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Cymru. Deallwn nodau Llywodraeth Cymru ac yn ystod 2014/15 parhaodd ein sefydliadau i gydweithio i weithredu ein blaenoriaethau perthnasol.

Ym mis Ionawr 2015 fe wnaethom lofnodi Memorandwm Dealltwriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yn tanlinellu ein hymrwymiad ar y cyd i weithio gyda'n gilydd i sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth yn gosod fframwaith ar gyfer cyflawni amcanion y ddau sefydliad. Mae hyn yn cynnwys egwyddorion trafodaeth agored a thryloywder am feysydd o ddiddordeb cyffredin, rhannu data a gwybodaeth lle gall hynny fod yn berthnasol, ac ymchwilio cyfleoedd pellach i gydweithio ar gyfer budd ein gilydd ac yn ehangach.

Drwy ein gwybodaeth a phrofiad helaeth o'r diwydiant ynni adnewyddadwy, rydym yn cefnogi prosiectau tonnau a llanw yng Nghymru. Enghraifft o sut y cydweithiwn oedd y cyhoeddiad am ein cyllid ar gyfer swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y Cyd-raglen Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (ORJUP) ar gyfer ynni môr, ynghyd â Llywodraeth Cymru. Daw'r rhaglen â diwydiant, rheoleiddwyr, cyllidwyr ac ymchwilyr ynghyd fel y gellir trin risgiau cydsyniol y sector mewn modd strategol a chydlynol, gan osgoi dyblygu gwaith ac yn ei dro yn arwain at ostyngiad yn yr oedi am brosiectau. Wrth siarad am yr ORJIP newydd, dywedodd Carl Sargeant, Gweinidog Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru: "Mae ynni'r môr, bydded hynny'n llanw neu donnau, yn rhan hanfodol o'r cyfuniad ynni ac rydym yn ymroddedig i'w gynyddu wrth i ni weithio at ddyfodol carbon isel i Gymru. Drwy weithio gyda'n gilydd, gall y bartneriaeth hon drin llawer o'r materion amgylcheddol sy'n wynebu datblygwyr a rheoleiddwyr ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn arwain at system decach, diogelach a mwy effeithiol ar gyfer pawb a bydd yn cyflwynu'r broses caniatâd ar gyfer prosiectau morol adnewyddadwy."

Cynhaliwyd ein pumed digwyddiad blynyddol ym mis Tachwedd yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Yn seiliedig ar thema 'Gweithio mewn partneriaeth dros Gymru ffyniannus', soniodd y digwyddiad am ein cyfraniad ar draws y genedl gyda nifer o'n partneriaid busnes allweddol yn arddangos eu prosiectau neilltuoel. Roedd y partneriaid hyn yn cynnwys RWE, Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain, Quay Marinas, Welsh Slate a Tidal Energy Cyf.



Lle y gweithiwn

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr allan i 12 milltir forol. Mae hyn yn golygu fod gennym ddiddordebau mewn ynni adnewyddadwy, pibelli olew a nwy, cloddio am agregau morol, ceblau pŵer a thelathrebu. Yn ychwanegol mae gennym hawliau penodol dros y sgafell gyfandirol hyd at 200 milltir forol (ac eithrio hydrocarbonau) ac yn gyfrifol am tua 65 y cant o'r blaendraeth yng Nghymru.

Ar y tir, rydym yn berchen dwy ystâd wledig ym Mhumlumon a Thyndyrn yn gyfanswm o 1,310 hecтар (3,238 erw) o dir amaethyddol a 26,900 hecтар (66,470 erw) arall o dir comin yng Nghymru. Er mai tir bras ar gyfer pori yw'r rhan fwyaf o hyn, mae hefyd yn adnodd naturiol bwysig a gaiff ei fwynhau gan gerddwyr ac eraill sydd â diddordeb yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae diddordebau economaidd ychwanegol yn cynnwys porthladdoedd, marinas a ffermydd gwynt ar y tir, ac o fewn ein portfolio masnachu rydym yn berchen ar ganolfan siopa Morfa yn Abertawe.

Rydym yn gyfrifol am tua 100,000 hecтар (247,000 erw) o berchnogaeth mwynau'n unig a chafodd wyth safle eu lesu ar gyfer cloddio am fwynau. Rydym hefyd yn berchen adneuo aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol, lle bynnag y maent yn y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig ac mae gennym ddwy les ar waith ar gyfer cloddio am aur yng Nghymru.

Uchafbwyntiau ariannol Cymru

Sut y gwnaethom berfformio	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m	Cynnydd o'r flwyddyn flaenorol %	Canran o'r cyfanswm %
Refeniw	11.1	9.7	373.1	350.8	14.4	2.9
Gwarged gros	10.2	9.4	322.0	304.9	8.5	3.2
Gwerth eiddo	169.1	160.6	10,192.5	8,914.7	5.3	1.7
Buddsoddiadau cyfalaf	1.2	0.4	253.4	511.7		
Derbyniadau cyfalaf	0.1	-	451.0	457.2		



	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m	Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m
Refeniw yn ôl gweithgaredd					
Arfordirol	1.5	1.5	Arfordirol	17.4	16.4
Ceblau/pibelli	0.1	0.1	Ceblau/pibelli	1.9	1.8
Amaethyddiaeth	0.1	0.1	Amaethyddiaeth	4.6	4.5
Coedwigaeth	-	-	Coedwigaeth	0.1	0.1
Mwynau	0.7	0.4	Mwynau	3.9	3.2
Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	2.4	2.1	Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	27.9	26.0
Ceblau/pibelli	0.8	0.6	Ceblau/pibelli	9.7	8.6
Troelli	0.5	0.8	Carthu	3.2	6.2
Adnewyddadwy	2.4	1.2	Adnewyddadwy	39.9	39.1
Cyfanswm Ynni a Seilwaith	3.7	2.6	Cyfanswm Ynni a Seilwaith	52.8	53.9
Cyfanswm trefol	5.0	5.0	Cyfanswm trefol	88.4	80.7
Cyfanswm	11.1	9.7	Cyfanswm	169.1	160.6

Alison Nimmo

Alison Nimmo CBE

Llofnodwyd gan yr Ail Gomisynydd a Swyddog Cyfrifeg ar ran y Bwrdd

17 Mehefin 2015



Mae ein dull gweithredu yn un cydweithiol, gan gydweithredu gyda phartneriaid sydd mor angerddol â ninnau am sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Cymru.

Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru

Bu'n flwyddyn o gynnydd, wrth i ni weithio mewn partneriaeth gyda'n rhanddeiliaid i ddod â mwy o ffyniant i Gymru drwy gefnogi ynni adnewyddadwy, busnesau lleol a chymunedau ar draws y genedl.

Cefnogi ynni adnewyddadwy

Ein rôl yw cefnogi a hwyluso datblygiadau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag un o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig sef sicrhau bod ynni y Deyrnas Unedig yn ddiogel, fforddiadwy a chynaliadwy. Anelwyd ein gweithgareddau buddsoddi at ddad-risgio'r sector adnewyddadwy alltraeth i ddatgloi ei fanteision posibl.

Yn ystod y flwyddyn rydym eto wedi defnyddio'r sgiliau helaeth a'r profiad rhagorol sydd gennym o bob rhan o'r Deyrnas Unedig wrth weithio i ddatgloi potensial ar y môr ar gyfer Cymru. Mae gan Gymru adnoddau naturiol helaeth ar y môr a chyfluoedd i gysylltu â'r grid cenedlaethol. Gyda'n harbenigedd a'n nerth ariannol rydym mewn sefyllfa i roi'r cyfluoedd hyn ar waith.

Gwynt ar y môr

Gwelsom gynnydd sylweddol yn adeiladu fferm wynt Gwynt y Môr oddi ar arfordir gogleddol Cymru, a disgwyli'r ei hagoriad swyddogol ym Mehefin 2015. Hon yw'r fferm wynt ar y môr ail fwyaf yn y byd a all roi trydan i dros 400,000 o gartrefi.

Helpodd datblygu Gwynt y Môr i ddod â swyddi, datblygiad a thwf i gymunedau lleol fel Mostyn, y porthladd a fu'n sylfaen i lawer o weithgareddau adeiladu'r prosiect. Enillodd tîm Gwynt y Môr y Wobr Lechyd a Diogelwch Ynni Adnewyddadwy yn 2014, gyda chefnogaeth Ystâd y Goron unwaith eto.

Daw Gwynt y Môr y drydedd fferm wynt ar y môr ger arfordir Cymru yn dilyn Gwastadeddau'r Rhyl a North Hoyle, fferm wynt ar y môr raddfa-fawr fwyaf y Deyrnas Unedig pan agorodd yn 2003. Cefnogir pob un o'r tair fferm wynt ar y môr o Fostyn, gan sicrhau manteision parhaus i'r economi lleol.


Mae gwynt ar y môr yn ddiwydiant sy'n aeddfedu ar draws y Deyrnas Unedig. Wrth i'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r adnoddau o amgylch ein harfordir gynyddu, gwelsom ddatblygwyr yn canolbwyntio ar y prosiectau hynny sydd fwyaf hyfyw yn y dyfodol agos ac felly dod ag eraill i ben. Roedd prosiect Celtic Array ym Môr Iwerddon yn un o'r prosiectau a ddaeth i ben yn 2014 oherwydd darganfod amodau daear a wnâi'r prosiect yn economaidd anhwyfwr gyda'r dechnoleg gyfredol.

Mae gennym ymrwymiad i alluogi datblygwyr a chymunedau i fanteisio o'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth. Fe wnaethom gyhoeddi llawer o ddata ym mis Medi a gasglwyd o brosiect alltraeth blaenorol Atlantic Array yn Aber Hafren drwy ein hadnodd ar-lein Cyfewidfa Data Morol. Mae'n cwmpasu ystod eang o wybodaeth, yn cynnwys deunydd amgylcheddol megis arolygon o adar a mamaliaid; gwerthusiadau o weithgaredd dynol megis morgludiant, mordwyo a data archeolegol a manylion amgylchedd

RME Imogy yw adran ynni adnewyddadwy RWE, cwmni cyfleustod ynni Ewropeaidd. Rydym yn adeiladu a gweithredu ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, gorsafoedd hydro a safleoedd biomas ar draws y Deyrnas Unedig. Fel datblygydd ynni gwynt ar y môr a gweithredwr blaenllaw, gweithiwn yn agos gydag Ystâd y Goron gan eu bod yn darparu'r lesau gwely môr gofynnol ar gyfer yr ardaloedd lle mae ein ffermydd gwynt ar y môr. Mae Ystâd y Goron hefyd yn cymryd diddordeb ehangach yn y sector gwynt alltraeth drwy gefnogi llawer o gamau gweithredu galluogi i gynorthwyo wrth ddatblygu ffermydd gwynt yn y dyfodol a chynyddu

perfformiad y rhai sydd eisoes yn gweithio. Gweithiwn yn agos gydag Ystâd y Goron ar lawer o'r gweithgareddau hyn. RWE adeiladodd y fferm wynt ar y môr gyntaf yn y Deyrnas Unedig ger arfordir Gogledd Cymru yn 2003. Arweiniodd y prosiect 60MW yma, North Hoyle, y ffordd at ddau brosiect pellach ger arfordir Gogledd Cymru a ddatblygwyd ac a adeiladwyd gan RWE Innogy gyda buddsoddwyr eraill. Dechreuodd Gwastadeddau'r Rhyl, 90 MW, yn 2009 a chafodd prosiect 576 MW Gwynt y Môr ei orffen eleni.

Alistair Gill
Pennaeth Datblygu Alltraeth, RWE Energy





Fel rheolwyr trydydd parti parth Arddangos Gorllewin Môn, mae Menter Môn yn gweithio'n agos gydag Ystâd y Goron ar brosiect i dynnu risg o gostau datblygu ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â safleoedd llanw ac felly ddenu rhai o'r prosiectau arae ynni llanw cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gorff trydydd sector sy'n gweithio ym Môn ac mae Ystâd y Goron wedi dyfarnu les gwely môr i ni am 45 mlynedd i ddechrau. Mae hyd y lês yn dangos barn ac ymrwymiad hirdymor Ystâd y Goron i ddatblygu'r diwydiant llanw yng Nghymru, gan ein galluogi i sicrhau buddsoddiad ym Mhrosiect Morlais ac mae'n ein galluogi i

is-lesu ardaloedd o fewn y parth i ddatblygwyr prosiect. Bwriedir i'r parthau amrywio o brosiectau arddangos technoleg gyda capasiti hyd at tua 3 MW hyd at araeau masnachol llawn o 30 MW. Y bwriad yw y gellid gosod y cyntaf o'r prosiectau hyn yn y ddwy/dair blynedd nesaf gyda defnydd llawn hyd at tua 100 MW wedi'i osod o fewn y degawd nesaf. Mae gan Gymru potensial sylweddol ar gyfer cynhyrchu ynni llanw adnewyddadwy a, gyda chefnogaeth Ystâd y Goron, edrychwn ar geisio datgloi'r potensial yma

Dafydd Gruffydd
Cyfarwyddwr Busnes, Menter Môn

ffisegol, megis data geodechnegol a geoffisegol a samlo gwaddodion. Drwy sicrhau fod yr wybodaeth ar gael yn rhydd drwy'r Gyfnewidfa Data Morol gallwn helpu i ysgogi ymchwil, cefnogi academia a chyfrannu tuag at ddatblygiad hirdymor gwely'r môr.

Tonnau a llanw

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, fe wnaethom orffen cylch lesu tonnau a llanw pwysig yn ystod y flwyddyn, gan gytuno ar hawliau gwely'r môr ar gyfer dau barth arddangos newydd ar gyfer darpar ddatblygwyr yn nyfroedd Cymru. Am y tro cyntaf bydd y safleoedd arddangos yn galluogi sefydliadau lleol i reoli ac is-osod rhannau o wely'r môr i ddatblygwyr. Dyfarnwyd Parth Arddangos Gorllewin Môn i gorff trydydd sector Menter Môn a dyfarnwyd parth De Sir Benfro i Wave Hub Cyf.

Mae'r cynlluniau cyfredol o amgylch arfordir Cymru yn cynnwys DeltaStream, dyfais arddangos ger arfordir Sir Benfro a ddatblygwyd gan Tidal Energy Cyf. o Gaerdydd.

Mae gan y Deyrnas Unedig, ac yn neilltuol ranbarthau arfordirol o ogledd a de Cymru rai o'r adnoddau ystod llanw uchaf yn y byd. Yn dilyn ymarferiad ddechrau 2014 i ganfod diddordeb y farchnad mewn datblygu cynlluniau cynnar i arddangos prosiectau ystod llanw, lansiodd Ystâd y Goron ei gylch lesu cyntaf yn benodol ar gyfer y cyfle ynni a seilwaith newydd hwn. Mae gan seilwaith morlynnoedd botensial nid yn unig i gynhyrchu trydan mewn modd rhagweladwy, ond gallai prosiectau'r dyfodol, os cânt eu lleoli'n dda, hefyd roi manteision diogelu arfordir a llifogydd, a datgloi posibilrwydd cynlluniau 'gwneud lle' arfordirol.

Mae Ystâd y Goron ar y trywydd i gwblhau'r cyfle lesu cyntaf yn y byd yma ar gyfer cynllunio ystod llanw yn 2015. Yn gyfochrog â hyn, mae cynlluniau hefyd ar y gweill i baratoi'r ffordd i ddeall y potensial y gall y diwydiant hwn fod ag yn y dyfodol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a manteision niferus eraill.

Storio trydan ar y tir

Mae safle storio trydan graddfa-grid nwydd cyntaf Prydain am fwy na 30 mlynedd gam yn nes at gael ei gwblhau, yn dilyn ein cytundeb i lesu 13 hectar o dir yng ngogledd Cymru i'r datblygydd Snowdonia Pumped Hydro (SPO). Bydd gan safle £160 miliwn Glyn Rhonwy ger Llanberis y potensial i gynhyrchu bron 100 MW o drydan yn defnyddio technoleg hydro wedi'i bwmpio. Disgwylir i'r safle fod yn gweithredu erbyn 2019 a bydd yn cefnogi cannoedd o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu, gyda hyd at 30 yn cael eu cadw pan fydd yn llwyr weithredol.

Cefnogi busnesau a chymunedau eraill

Ffermio defaid yw'r prif weithgaredd ar ein stadau gwledig ym Mhumlumon a Thyndym. Cefnogwn reolaeth dydd-i-ddydd y darnau helaeth hyn o dir a gweithiwn yn galed i sicrhau y caiff eu cymeriad unigryw ei gadw am genedlaethau i ddod. Yn Nhyndym, er enghraifft, rydym yn dal i weithio gyda Cadw, corff cadwraeth Cymru, er mwyn ymchwilio'r ffordd orau i adnewyddu trefniadau gwarchod yr Abaty, gan felly sicrhau'r adeilad hanesyddol hwn ar gyfer pobl Cymru.

Agregau morol

Fel rheolwyr gwely môr y Deyrnas Unedig rydym yn gyfrifol am ddyfarnu hawliau ar gyfer ceblau tanfor o amgylch arfordir Cymru. Rydym hefyd yn dyfarnu trwyddedau ar gyfer cloddio agregau morol ac fe wnaethom gynnal cylch lesu llwyddiannus yn ystod 2014. Rydym hefyd wedi comisiynu astudiaeth annibynnol i asesu'r farchnad hirdymor ar gyfer agregau morol ac felly gynyddu hyder yn y sector. Mae agregau morol yn debygol o ddod yn bwysicach wrth i'r pwysau ar adnoddau ar y tir gynyddu, gyda'r astudiaeth yn rhagweld y bydd y galw blyneddol yn cynyddu gan 3 y cant y flwyddyn am y 15 mlynedd nesaf, yn unol â mwy o weithgaredd adeiladu. Defnyddiwyd agregau morol mewn llawer o gynlluniau proffil uchel yn cynnwys croesiad Twannel Conwy a Morglawdd Bae Caerdydd, ac mae'r diwydiant yn cynnal swyddi a gweithgaredd economaidd mewn porthladdoedd yng Nghymru yn cynnwys Caerdydd a Llansawel.

Yn ogystal â rhoi'r deunyddiau craidd ar gyfer y diwydiant adeiladu, defnyddir ein h agregau morol hefyd i adlenwi traethau a gwella diogelu'r arfordir yng Nghymru, ac mae hyn yn cael sgil-ffaith gadarnhaol ar economïau lleol drwy dwristiaeth. Adlenwyd traeth Bae Colwyn yn 2014 a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio cyfleoedd ar gyfer prosiectau tebyg yn ogystal â chynlluniau mwy arloesol a graddfa fwy yn y blyneddodod i ddod.



Cynrychiolwn 11 cwmni sy'n aelodau, sydd gyda'i gilydd yn gyfrifol am gynhyrchu tua 90 y cant o'r holl dywod a gro morol a gynhyrchir o ardaloedd trwyddedig ger arfordiroedd Lloegr a Chymru. Fel corff cynrychioli, prif amcan BMAPA yw cynnal a chyfoethogi 'trwydded i weithredu' gweithredwyr. Fel perchnogion yr adnoddau mwynau morol a gaiff eu cloddio gan ei aelodau ar hyn o bryd, mae diddordebau Ystâd y Goron a BMAPA yn aml yn debyg a gallwn weithio'n agos gyda'n gilydd. Gall hyn gynnwys cyd-ariannu cynlluniau arfer gorau ar gyfer materion

gweithredol, megis protocol adroddiadau canfyddiadau archaeolegol a ganfyddir yn ystod y broses droelli, neu gefnogi ymchwil sylfaenol i ddatblygu dealltwriaeth well o faterion allweddol i helpu hysbysu datblygu polisi newydd. Un enghraifft o hyn yw prosiect Uned Ymchwil Economaidd Cymru i edrych ar bwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd y diwydiant cynnyrch mewnol yng Nghymru.

Mark Russell
Cyfarwyddwr, BMAPA

Mwynau

Ar y tir, rydym yn trwyddedu wyth safle cloddio mwynau yng Nghymru gan eu lesu i fusnesau sy'n gweithredu yn y diwydiannau calchfaen, craig igneaidd a llechi. Yn yr un modd â nifer fawr o fusnesau gwledig ac arfordirol, mae'r busnesau hyn sy'n dibynnu ar ein hadnoddau naturiol yn cefnogi llawer o swyddi mewn cymunedau lleol.

Hwyluso datblygu

Fel perchnogion aber Aberdaugleddau, rydym wedi neilltuo tir i South Hook Gas ar gyfer adeiladu'r hyn fydd yn osodiad ceblau un-tyniad hiraf y bydd. Bydd y cebl yn cysylltu â gorsaf bŵer South Hook, ac felly'n cefnogi twf y cwmni yn y sector nwy naturiol hylif (LNG). Rydym yn ymchwilio ffyrdd pellach i sicrhau llwyddiant hirdymor Aberdaugleddau, yn cynnwys trafodaethau cyfredol gyda Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau i hwyluso cyfleoedd datblygu.

Rheolaeth leol

Yn ogystal â bod yn un o borthladdoedd pwysicaf y Deyrnas Unedig, mae Aberdaugleddau hefyd yn ardal boblogaidd ar gyfer morwyr hamdden. Yn ystod 2014 fe wnaethom gwblhau proses sydd wedi galluogi pobl leol i fod yng ngofal eu hamgylchedd drwy gymryd rheolaeth o'u hangorfeydd eu hunain. Trosglwyddwyd dros 1,000 angorfa i ddeiliaid yr angorfeydd, drwy gytundeb rheoli ardal leol.

Ymaith o'n hasedau arfordirol, denodd ymgyrch 'Dan y Ddeilen Werdd Fawr' dorfeydd mawr i nifer o'n parciau manwerthu yn ystod yr haf, yn cynnwys Parc Siopa'r Morfa yn Abertawe. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau cynaliadwyedd ac ecogyfeillgar i annog pobl ifanc i ofalu am yr amgylchedd.

Rhaglenni stiwardiaeth

Mae gan ein Cronfa Stiwardiaeth Forol hanes hir o lwyddiant mewn hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy yr arfordir yng Nghymru.

Fe wnaethom gyllido nifer o brosiectau pwysig yn ystod 2014. Roedd y prosiectau'n cynnwys darparu £17,000 a alluogodd Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro i greu croesiad afon cymunedol mwy diogel yn Sandy Haven, yn lle'r cerrig camu.

Fe wnaethom hefyd gefnogi Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Prosiect Mynediad Ynys Skokholm De a Gorllewin Cymru drwy ddarparu £19,000 i osod glanfa fydd yn gwella mynediad i'r ynys ar bob llanw.

Yn ychwanegol, fe wnaethom helpu i leihau llygredd morol a diogelu anifeiliaid morol drwy gefnogi Neptune's Army of Rubbish Cleaners, grŵp o blymwyrr gwirfoddol sy'n gweithio'n galed i lanhau ein hamgylchedd dan y dŵr.

Dros lawer o flynyddoedd rydym hefyd wedi cyfrannu arian i hwyluso datblygu Ynni Morol Sir Benfro sy'n annog datblygwyr ynni tonnau a llanw a chyrrff statudol i gydweithio er mwyn goresgyn rhwystrau posibl i ddatblygiad.

Yn aber yr Afon Dyfi rhoddwn gyllid i gefnogi cynllun gan Cadw i gofnodi manylion hwlc llong o'r 19eg Ganrif cyn i'r môr ei herydu'n llwyr. Mae hwlc Ynyslas yn heneb restredig a bydd y gwaith arfaethedig yn helpu i ddatblygu ymhellach yr wybodaeth o longau Cymru yn ogystal â sut yr hwylusodd arfordir Cymru fasnach a setliad.

Yn dilyn llwyddiant y Gronfa Stiwardiaeth Forol, rydym yn awr yn ehangu ein rhaglen stiwardiaeth i gwmpasu ein meysydd busnes allweddol eraill, yn cynnwys parciau manwerthu a daliadau tir gwledig. Bydd y ffocws ar bedwar maes allweddol: cyflogaeth, addysg, amgylchedd a sgiliau. Edrychwn ymlaen at adrodd ar ein cynnydd yn Uchafbwyntiau Cymru 2015/16.

Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i Gomisïynwyr Ystâd y Goron

Archwiliais y datganiadau ariannol ar gyfer Ystâd y Goron am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015, y mae'r wybodaeth ariannol ar dudalen 3 yn deillio ohonynt, yn unol gyda'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio. Yn fy adroddiad dyddiedig 11 Mehefin 2015, mynegais farn ddiamed ar y datganiadau ariannol y mae'r wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt.

Yn fy marn i, cafodd yr wybodaeth ariannol ategol ei dethol yn gywir, ym mhob cyswllt sylweddol, o'r cofnodion cyfrifeg a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol archwiledig y maent yn deillio ohonynt.

I gael dealltwriaeth well o sefyllfa ariannol y cwmni a chanlyniadau ei weithgareddau am y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylid darllen yr wybodaeth ariannol mewn cysylltiad gyda'r datganiadau ariannol yr oedd yr wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt a'n hadroddiad archwilio ar hynny.

Sir Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaetho
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria,
Llundain
SW1W 9SP

22 Mehefin 2015

Llundain

Ystâd y Goron
16 New Burlington Place
Llundain
W1S 2HX
Ff 020 7851 5000

www.thecrownestate.co.uk

 @TheCrownEstate

Cadw mewn cysylltiad:

Ar-lein

Gwefan gorfforaethol:
www.thecrownestate.co.uk

Adroddiad blynyddol ar-lein:
[www.thecrownestate.co.uk/
annualreport-15/](http://www.thecrownestate.co.uk/annualreport-15/)



Cyhoeddiadau rhanbarthol

Adroddiad Blynyddol
2015

Adroddiad yr Alban
2015

Uchafbwyntiau Gogledd Iwerddon
2015



Cyfyngau cymdeithasol a'r newyddion diweddaraf

Dilynwch ni ar Twitter:
 @TheCrownEstate

Cofrestru am hysbysiadau RSS neu e-bost:
www.thecrownestate.co.uk/get-updates

Cofrestru am hysbysiad adroddiad blynyddol ar-lein yn:
www.thecrownestate.co.uk/reportsignup
